# Grant Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru

# Canllawiau i Ymgeiswyr 2025-26

## Cyflwyniad

1. Pwrpas y Canllawiau hyn yw cadarnhau'r blaenoriaethau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi drwy grant y Gronfa Teithio Llesol i awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2025-26.

2. Mae hefyd yn nodi'r broses y dylai awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau a sut y byddant yn cael eu hasesu. Mae cyngor a chymorth i gynorthwyo awdurdodau lleol i gadarnhau eu cynlluniau arfaethedig a chwblhau eu ceisiadau ar gael gan yr ymgynghorydd teithio llesol enwebedig a chan Trafnidiaeth Cymru. Anogir awdurdodau lleol i ymgysylltu â'r cyswllt perthnasol cyn gynted â phosibl.

3. Bydd cyllid yn cael ei wneud yn uniongyrchol i awdurdodau lleol ar gyfer cyflawni prosiectau yn 2025-26. Gellir gwneud ceisiadau hefyd ar gyfer prosiectau mawr a chymhleth sy'n gallu cymryd hyd at dair blynedd i'w cwblhau, ond mae'n rhaid i'r rheini gael eu rhaglennu i ddechrau ar y gwaith adeiladu yn 2025-26 a bod wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2027-28. Mae'n rhaid amcangyfrif bod yn rhaid nodi cyfanswm costau'r cynllun yn y cais gan ddarparu dadansoddiad o wariant ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Bydd cynlluniau sy'n cymryd sawl blwyddyn i'w cwblhau, os ydynt yn llwyddiannus, yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid yn y blynyddoedd dilynol drwy gydol y cynllun, yn amodol ar gael cyllid grant ac y gwneir cynnydd boddhaol. Cysylltwch â'ch Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) lleol ynghylch unrhyw gynlluniau amlflwyddyn.

4. **Yn eich ceisiadau rhaid i chi ddangos eich bod wedi dilyn Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru (WelTAG).**

5. [Canllawiau Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) 2024 [HTML] | GOV.CYMRU https://www.llyw.cymru/arweiniad-ar-arfarnu-trafnidiaeth-cymru-weltag](https://www.llyw.cymru/arweiniad-ar-arfarnu-trafnidiaeth-cymru-weltag)

## Newidiadau Allweddol

| Adran | Newid |
|---|---|
| Meini Prawf Cyflwyno ac Asesu | Rhaid cynnwys CJC pan yn gwneud ceisiadau, adolygu ceisiadau ac asesiadau (Para. 3 ac Atodiad 2) |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau | Dyddiad cau ac eglurhad ar wybodaeth ychwanegol a dyddiad ar ôl y dyddiad cyflwyno (Para. 29 a 30) |
| Prif Gynlluniau | Gostyngiad yn uchafswm nifer y prif geisiadau Cynllun i un (Para. 31) |
| Cynlluniau Pecyn | Dileu cynlluniau pecyn |
| Monitro a Gwerthuso | Cais gorfodol am gynllun M&E a data sylfaenol ar bob cais Prif Gynllun (Para. 50) |
| Ymgynghoriad | Cais gorfodol am gynllun C&E a thystiolaeth o ymgysylltiad penodol i'r cynllun ar holl geisiadau Prif Gynllun. (Para. 57) |

| | |
|---|---|
| Cyflawnadwyedd | Rhaid darparu Asesiad ar yr Effaith ar Gydraddoleb (EQIA) gyda Phrif geisiadau cynllun (Para. 61) |
| Dyraniad Craidd | Gostyngiad yn y dyraniad craidd lleiaf i £350,000 (Para. 66) |
| Dyraniad Craidd | Rhannu uchafswm datblygiad cynllun 40% a 60% o weithgareddau craidd sylfaenol a chostau gwaith mân (Para. 68) |
| Datblygu'r Cynllun | Gostyngiad mewn uchafswm o dri chais datblygu cynllun (Para. 70) |

**Cymhwysedd ar gyfer Cyllid Cyfalaf**

6. Bydd mwyafrif y cyllid sydd ar gael i gyflwyno cynlluniau Teithio Llesol ledled Cymru ar gyfer 2025-26 ar gael drwy Raglen Grant y Gronfa Teithio Llesol. Bydd hyn yn cynnwys cyfran sydd ar gael i awdurdodau lleol drwy'r brif broses ymgeisio am y cynllun, cyfran i ddarparu cyllid dyraniad craidd i awdurdodau lleol a chyfran i reoli'r gronfa a chefnogi Llywodraeth Cymru i wella gweithrediad y Ddeddf Teithio Llesol. Mae'r dyraniadau craidd sydd ar gael i awdurdodau lleol i'w gweld yn Atodiad 1.

7. Rhaid i bob cynllun gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ynghyd a'r Arweiniad, diweddarwyd yn 2021. Bydd cyllid ar gyfer cynlluniau teithio llesol ond yn cael ei ganiatáu pan fydd dyluniad y cynllun yn adlewyrchu'r Canllawiau Deddf Teithio Llesol.

8. Rhaid i gynlluniau sy'n cynnwys gwella priffyrdd, adeiladu, neu reoli traffig ddangos sut maent yn cydymffurfio'n benodol ag Adran 9 y Ddeddf (Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol). Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth briodol i'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli gwaith stryd, gwaith ffordd a gweithgareddau cynnal a chadw cysylltiedig lle bynnag y gallant effeithio ar gerddwyr a beicwyr, fel y nodir yn 114/20 Canllawiau Atodol ar gyfer Diogelwch yng Ngwaith Stryd a Gwaith Ffyrdd Cod Ymarfer 2013 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

9. Bydd angen i chi gadarnhau hefyd bod y cynllun yn rhan o lwybr teithio llesol dynodedig presennol neu un ar gyfer y dyfodol. Dylid nodi cyfeirnodau Map Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNM) ar y ffurflenni cais perthnasol.

10. Wrth gynllunio cynlluniau, rhaid i awdurdodau lleol hefyd ystyried eu cyfrifoldebau o dan Adran 6 – Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol bod awdurdodau cyhoeddus yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled a bod hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo chydnerthedd ecosystemau. Mae hyn, er enghraifft, yn berthnasol iawn i daclu ymylon a chynlluniau plannu fel rhan o brosiectau trafnidiaeth. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar y ddyletswydd yma:
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: ffeithlenni | LLYW. CYMRU

11. Gall awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd a chyda eu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ar eu ceisiadau. Rhaid adnabod yr awdurdod lleol arweiniol ar gyfer pob cynllun. Byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i'r awdurdod lleol arweiniol.

12. Byddwn yn ariannu gwaith a datblygiad cyn-waith/cynllun ar gyfer prif gynlluniau cyfalaf a dylid cynnwys cost monitro a gwerthuso, ymgysylltu a hyrwyddo cynlluniau.

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i bob un o'r elfennau hyn a bod gwybodaeth bellach yn cael ei chynnwys yn ddiweddarach yn y nodyn canllaw hwn.

13. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu hyd at y swm a ddyfernir ar gyfer gwariant cymwys gwirioneddol a ddaw i fod yn sgil cynllun a dderbynnir. Bydd yr arian yn cael ei gapio ar lefel y dyfarniad a bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol ysgwyddo'r risg o unrhyw orwariant a allai ddigwydd. Lle mae costau uwch yn codi oherwydd amgylchiadau eithriadol, y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod lleol, gall Llywodraeth Cymru ystyried sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael.

14. Gall costau cymwys gynnwys costau staff ar gyfer staff mewnol sy'n gweithio'n uniongyrchol ar gynllun. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei gynnwys mewn llythyr gwobrwyo a'r canllawiau yn ystod y flwyddyn.

15. Bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol gyflawni'r cynlluniau a dderbynnir yn unol â'u ceisiadau. Bydd angen adroddiadau ar gynnydd ar gyfnodau drwy gydol blwyddyn ariannol 2025-26 a dylid darparu gwybodaeth diwedd y prosiect, naill ai mewn ffurf adroddiadau blynyddol presennol neu adroddiadau penodol i'r prosiect, ar ôl cwblhau prosiectau adeiladu i nodi effaith y cynlluniau yn ogystal â chofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd. Caiff unrhyw wybodaeth arall ei chynnwys yn y llythyr dyfarnu.

16. Bydd yr argymhellion cyllid terfynol hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni yn erbyn ei ragolygon mewn perthynas â grant y Gronfa Teithio Llesol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

17. Gall swyddogion Llywodraeth Cymru, swyddogion Trafnidiaeth Cymru neu eu cynrychiolwyr ofyn am gyfarfodydd neu wneud cais i ymweld â safle i drafod cynnydd y cynllun fel y bo'n briodol. Gall methu â dangos cynnydd priodol o ran cyflawni arwain at dynnu cynigion cyllid yn ôl a bod cyllid a hawliwyd hyd at y pwynt hwnnw yn cael ei adfer gan yr awdurdod lleol.

18. Lle rhoddwyd cymeradwyaeth i gynlluniau aml-flwyddyn yn 2023-24 neu 2024-25, bydd angen gwneud cais i ddiweddaru'r wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol. Rhowch enwau cynllun unrhyw gynlluniau parhaus i swyddogion Trafnidiaeth Cymru cyn gynted â phosibl, gan y gallant gynorthwyo'r broses hon gan lenwi’r wybodaeth angenrheidiol ar y porth ar-lein ymlaen llaw. Dylai hyn dynnu sylw at newidiadau i gwmpas a dyluniad y cynllun, amserlenni a swm y grant sydd ei angen. Pe bai'r cais yn amrywio'n sylweddol i'r hyn a gyflwynwyd yn flaenorol, caiff hyn ei werthuso fel pe bai'n gynllun newydd ac ni fydd yn denu cyllid yn awtomatig.

### Y broses ymgeisio

19. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio porth ar-lein Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno eu ceisiadau - dyma’r ddolen:

    **https://trcsrg.powerappsportals.com/SignIn**

20. Mae canllawiau a hyfforddiant pellach ar sut i ddefnyddio'r porth ar gael i swyddogion awdurdodau lleol, i gael rhagor o wybodaeth a chymorth, e-bostiwch TrC: grants@tfw.cymru

21. Ceisiadau, gan gynnwys cynlluniau sy'n ceisio cyllid dyrannu craidd, **rhaid cynnwys cynllun sy'n dangos y cynllun mor fanwl â phosibl yn ystod y cam ymgeisio a map yn dangos sut mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach i ddarparu cyd-destun**. Rhaid cynnwys cyfeiriad grid i nodi lleoliad y cynllun hefyd ar y ffurflen gais.

22. Ar gyfer pob prif gais cynllun a chynllun datblygu, ac ar gyfer ceisiadau cyllid craidd perthnasol (e.e. lle bydd cynigion yn gwella neu'n uwchraddio llwybr presennol), rhaid i awdurdodau lleol ddarparu tystiolaeth i gefnogi eu sgôr archwilio llwybrau presennol ac yn y dyfodol ar ffurf asesiadau wedi'u cwblhau gan ddefnyddio'r offer archwilio cerdded a beicio sydd wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Os na ddarperir unrhyw dystiolaeth, dim ond ar y lefel uchaf y bydd yr elfen hon o'r meini prawf sgorio yn cael ei hasesu fel modd o fodloni isafswm y gofynion (70% -79%).

23. Dylid darparu'r dogfennau ategol canlynol:
    - Mapiau a chynlluniau mewn perthynas â phob cais (rhaid i'r mapiau a'r cynlluniau hyn ddangos yn glir y mesurau arfaethedig). Ceisiadau craidd – bydd cynllun sy'n dangos lleoliadau dangosol a dyluniadau amlinellol yn ddigonol, mae enghraifft o arfer da wedi'i chynnwys yn Atodiad 8. Mae enghraifft o sut mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r rhwydwaith ehangach a phrosiectau eraill wedi'i gynnwys yn Atodiad 9.
    - Lluniau o'r dyluniadau (yn ddelfrydol, dyluniadau manwl) gan gynnwys lluniadau trefniant cyffredinol ar gyfer pob prif gynllun adeiladu, ac ar gyfer datblygu cynlluniau a cheisiadau craidd lle bo hynny'n berthnasol ac ar gael.
    - Tystiolaeth i gefnogi cynnydd porth llwyfan ar gyfer prif gynlluniau a chynigion datblygu cynlluniau.
    - Rhaid cadw gwybodaeth ategol arall, yr ydych yn credu sy'n hanfodol i'r cais, i'r lleiafswm a bod yn ddienw, lle bo hynny'n berthnasol.

24. Mae'r gofynion ymgeisio yn amrywio yn dibynnu a yw awdurdod lleol yn gwneud ceisiadau am gyllid sy'n ymwneud â phrif gynlluniau, cynigion datblygu cynllun neu weithgareddau dyrannu craidd eraill. Esbonnir y gofynion hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol a chant eu crynhoi yn Atodiad 7.

**Proses arfarnu**

25. Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu gan swyddogion Trafnidiaeth Cymru a chynrychiolwyr perthnasol fel y bo'n briodol, ac yna bydd eu hargymhellion yn cael eu hystyried gan banel sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru.

26. Bydd penderfyniadau terfynol ar gyllid yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru.

27. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer y grantiau wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 (prif geisiadau Cynllun) ac Atodiad 3 (Ceisiadau Dyrannu Craidd) isod.

28. Bydd pwysoliad yn cael ei gymhwyso i'r meini prawf asesu ar gyfer prif gynlluniau fel y nodir yn y tabl isod, a gaiff eu lluosi gan werthoedd yr asesiad a'u hychwanegu at ei gilydd i ddarparu sgôr derfynol ar gyfer pob cynllun a gyflwynir drwy'r broses ymgeisio gystadleuol.

| Prif Gategori Meini Prawf Asesu'r Cynllun | Sgôr Cychwynnol (uchafswm) | Pwysoliad | Sgôr wedi'i phwysoli (uchafswm) |
|---|---|---|---|
| **Ffit Strategol - Achos dros Newid** | 6 | 5 | 30 |
| **Ffit Strategol – Yn cyd-fynd ag Amcanion Grant** | 5 | 5 | 25 |
| **Achos Trafnidiaeth – Asesiad Effaith** | 5 | 5 | 25 |
| **Ansawdd Seilwaith** | 10 | 5 | 50 |
| **Monitro a Gwerthuso** | 5 | 3 | 15 |
| **Cymuned ac Ymgysylltu** | 5 | 3 | 15 |
| **Cyflawnadwyedd** | 5 | 5 | 25 |
| **Arian cyfatebol** | 5 | 1 | 5 |
| | | **Cyfanswm y sgôr wedi'i phwysoli (max.)** | **190** |

**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau**

29. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 23:59 ar **20fed Rhagfyr 2024**.

30. Ni ellir derbyn gwybodaeth ychwanegol neu ddiwygiedig ar ôl y dyddiad uchod oni bai y cytunir y gellir gwneud hynny, neu os gofynnir am wybodaeth ar ol yr amser hwn. Gellir cyflwyno gwybodaeth sy'n ymwneud â chymeradwyaethau oedi, fel cynllunio neu SAB, ar ôl dyddiad cyflwyno'r cais ond **MAE'N RHAID** cynnwys y manylion yn y cais gwreiddiol (gan gynnwys dyddiadau cymeradwyo disgwyliedig), a rhaid darparu'r wybodaeth hon cyn diwedd mis Chwefror 2025.

**Prif Gynlluniau**

31. Gwahoddir awdurdodau lleol i **wneud cais am un prif gynllun** ar gyfer llwybrau o fewn ardaloedd dynodedig neu'n gysylltiedig â hwy neu'r rhai sy'n cefnogi'r cynnig gwledig (mae hyn yn cynnwys unrhyw gynlluniau parhad yn dilyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol). Oherwydd y cyfyngder sydd ar gael bydd cynlluniau cyllido sydd â photensial uwch ar gyfer newid moddol yn cael eu blaenoriaethu.

32. Dylid cyflwyno'r prif geisiadau hyn gan ddefnyddio prif ffurflen gais y cynllun ar y porth ar-lein. Dylai'r rhain fod yn geisiadau ar gyfer cynlluniau cymryd gwaith adeiladu (fel arfer yng Nghategori 2, 3 neu 4 fel y dangosir isod) o Gyfnod E prosiect (dyluniad manwl un opsiwn) i gwblhau Cam F (cwblhau a throsglwyddo). Oherwydd, dylai'r holl risgiau cyflenwi mawr fod wedi cael eu datrys (e.e. perchenogaeth tir, cydsyniadau, gorchmynion cyfreithiol) **cyn** cyflwyno'r cais am gyllid. Felly, ni ddylai prif geisiadau cynllun gynnwys ceisiadau am gynigion datblygu cynllun y dylid eu hariannu o'ch dyraniad craidd a'u cyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflenni cais craidd.

33. Dim ond cynlluniau sydd wedi'u nodi ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol, fel y cymeradwyir gan Weinidogion Cymru, neu a gyflwynwyd iddynt, fydd yn cael eu hystyried yn gymwys i gael cyllid.

34. Nid yw bod yn llwybr cymeradwy ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol yn warant y caiff y cynllun ei ariannu er mwyn ei gyflawni. Rhaid i awdurdodau lleol allu dangos bod achos cryf dros newid, yn enwedig mewn perthynas â chyflawni amcanion y grant, yn bodoli ar adeg y cais. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd gadarnhau sut mae'r cynllun wedi'i flaenoriaethu ar draws eu ATNM ehangach.

35. Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau yn ôl yr amserlen ac yn adrodd am unrhyw newid i'r rhaglen waith a/neu broffil gwariant cyn gynted â phosibl. Gall methu â dangos cynnydd priodol o ran cyflawni arwain at dynnu cynigion cyllid yn ôl a bod cyllid a hawliwyd hyd at y pwynt hwnnw yn cael ei adfer gan yr awdurdod lleol.

**Categorïau Graddfa a Chynllun Prosiect**

36. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi amrywiaeth o gynlluniau sy'n amrywio o ran maint, graddfa a chwmpas ac anogir awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau uchelgeisiol ond y gellir eu cyflawni ac sy'n ceisio cyflawni'r egwyddorion dylunio a nodwyd o'r ansawdd uchaf sydd wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.

37. Er mwyn helpu i benderfynu ar lefel y gefnogaeth, goruchwyliaeth a rheoli risg sydd ei angen ar gyfer y prosiect, dylai awdurdodau lleol nodi categori cynllun ar gyfer pob prosiect yn seiliedig ar y tabl isod:

| Categori | Disgrifiad | Trothwy dangosol | Categori Risg WelTAG |
|---|---|---|---|
| 1 | Mae prosiectau'n debygol o fod yn llai o ran graddfa, risg isel, gyda chymhlethdod llai technegol, ac mae angen llai o gefnogaeth. Y prif ffocws fydd cynlluniau gwaith mân gan gynnwys mentrau ar draws yr ardal fel gwell arwyddion, gosod/symud rhwystrau, uwchraddio mannau croesi a gwneud gwaith i greu athreiddedd wedi'i hidlo. | <£250K | Isel |
| 2 | Cynigion bach i ganolig y gellir eu cyflwyno o fewn un flwyddyn ariannol heb fawr o anhawster. Tebygolrwydd o allbynnau sylweddol o ran defnydd neu effaith leol. | £250-£500K | Isel/Canolig |
| 3 | Cynlluniau maint canolig. Y mwyaf y gellir ei gwblhau yn y flwyddyn ond y gellid ei rannu dros ddwy flynedd. | £500K - £1.5m | Canolig/Uchel |
| 4 | Aml-flwyddyn. Prosiectau mawr, cymhleth gyda gofynion cystadleuol cymhleth, sy'n gofyn am lefelau uwch o gefnogaeth i gyflawni'r prosiect. | £1.5m+ | Uchel |

**System Porth (Stage Gate)**

38. Er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu datblygu yn unol â phroses WelTAG, cyflwynwyd system 'porth' ar gyfer rhaglen y Gronfa Teithio Llesol. Mae map proses sy'n dangos sut mae'r pyrth hyn yn cyd-fynd â WelTAG a'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer pob cam i alluogi'r cynlluniau i symud ymlaen drwy'r pyrth hyn wedi'i nodi yn Atodiad 4. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi ar eu cais am gynlluniau pan fyddant yn rhagweld y byddant yn symud ymlaen trwy'r gwahanol byrth yn eu rhaglen gyflawni.

39. Gofynnir i awdurdodau lleol ddarparu tystiolaeth i ddangos cynnydd trwy gatiau llwyfan fel rhan o'u proses hawliadau chwarterol ac adrodd, neu ar adegau eraill, pan ofynnir amdanynt. Dylid o leiaf drafod a chytuno ar ddewis opsiwn dewisol a chamau dylunio gyda'r cynghorydd enwebedig cyn symud ymlaen i'r cam datblygu nesaf.

40. Mae'r broses porth hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd canllawiau pellach ar newidiadau i'r broses yn dilyn. O'i gyflwyno, bydd angen i bob cynllun newydd a gyflwynir ar gyfer datblygu cynllun ddilyn y broses wedi'i diweddaru.

41. **Bydd angen i awdurdodau lleol gytuno ar ddyluniadau'r cynllun ar gyfer eu cynigion gyda TrC neu ei gynrychiolwyr cyn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud ag adeiladu.**. Gwnewch hyn cyn gynted â phosibl i leihau oedi wrth gyflawni prosiectau.

### Ffit Strategol - Yn cyd-fynd ag Amcanion Grant

42. Rhaid i'ch ceisiadau ddangos sut y bydd eich cynigion yn cyfrannu at gyflawni amcanion grant y Gronfa Teithio Llesol fel y nodir isod:

| Enw'r grant | Amcanion y grant |
|---|---|
| **Cronfa Teithio Llesol** | • Annog newid yn y modd y mae pobl yn teithio o ddefnyddio'r car i gerdded, olwynio a beicio ar gyfer teithiau pwrpasol ar wahân neu ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus<br>• Gwella'r mynediad sydd i lwybrau cerdded, olwynio a beicio i gyrraedd y gwaith, addysg, gwasanaethau allweddol a chyrchfannau eraill lle mae llawer iawn o draffig<br>• Cynyddu nifer y bobl sy'n cerdded, olwynio a beicio ar gyfer teithiau pwrpasol<br>• Cysylltu cymunedau |

43. Pan fo cynlluniau teithio llesol yn cefnogi integreiddio â dulliau trafnidiaeth gynaliadwy eraill, yna gellir eu hystyried yn addas i'w hadnabod fel rhan o raglenni ehangach y Metro a gellir eu hystyried ar gyfer llwybrau cyllido eraill megis y Cynlluniau Traffig Rhanbarthol arfaethedig.

### Achos Trafnidiaeth - Asesiadau Effaith

44. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn meddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig.

45. Mae Deddf 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i geisio cyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant ym mhopeth a wnânt.

46. **Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru Newydd** (WTS) yw ein strategaeth ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru. Mae'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a'n blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Dyma sail i amcanion y grant.

    [Llwybr Newydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021: strategaeth lawn (llyw.cymru)]

47. **Yn eich cais, rhaid i chi ddangos yn gryno sut mae eich cynnig yn cyfrannu at uchelgeisiau WTS ac amcanion llesiant lleol eich awdurdod. Mae adran yr Asesiad Effaith ar y ffurflen gais yn rhoi cyfle amlwg i chi wneud hyn.**

    https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2024/7/1/1719821321/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf

**Ansawdd Seilwaith**

48. Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau uchelgeisiol a sicrhau bod pob prosiect sy'n derbyn cyllid yn cael yr effaith fwyaf posibl, mae Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol wedi nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer anghenion defnyddwyr:

    - Datblygu syniadau ar y cyd ac mewn partneriaeth â chymunedau
    - Hwyluso cerdded, beicio ac olwynio annibynnol i bawb, gan ddarparu ar gyfer anghenion plentyn ar ei ben ei hun o oedran ysgol uwchradd, rhywun sy'n gwthio bygi dwbl, beic wedi'i addasu, neu feiciwr llai profiadol
    - Lleoedd dylunio sy'n darparu mwynhad, cysur ac amddiffyniad
    - Sicrhau mynediad i bawb a chyfle cyfartal mewn mannau cyhoeddus
    - Sicrhau bod yr holl gynigion yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n benodol i'r cyd-destun ac sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth
    - Dylai cynlluniau wahanu pobl sy'n cerdded, beicio ac olwynio o gerbydau modur neu flaenoriaethu teithio llesol gan ddefnyddio'r hierarchaeth ganlynol:
        - Gwahanu cerddwyr oddi wrth feicwyr a thraffig modur trwy ddarparu seilwaith oddi ar y ffordd ar wahân os oes angen, trwy ailddyrannu'r lle sydd ar y ffordd
        - Gwahanu cerddwyr a beicwyr rhag traffig modur drwy ddarparu seilwaith sy'n rhan o briffordd y gellir ei rannu
        - Gwella amodau ar y ffordd i annog cynnydd yn y defnydd o feiciau o fewn y briffordd bresennol, er enghraifft drwy leihau nifer a chyflymder traffig.

49. Bydd pob cynllun yn cael ei asesu yn erbyn pa mor dda y maent yn cyflawni'r egwyddorion dylunio uchod gyda phwyslais penodol ar ba mor dda y mae'r cynlluniau'n bodloni neu'n rhagori ar y safonau seilwaith ansawdd gofynnol, fel y penderfynir gan yr offer archwilio yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol: Canllawiau Teithio Llesol | LLYW.CYMRU.

**Monitro a Gwerthuso**

50. Mae'n **rhaid** i bob prif gynllun cais gynnwys Cynllun Monitro a Gwerthuso ynghyd a thystiolaeth o wybodaeth sylfaenol a gofnodwyd. Bydd methu â darparu'r wybodaeth hon yn golygu na fydd y cais yn cael ei brosesu.

51. Rhaid monitro a gwerthuso pob cynllun am gyfnod o dair blynedd ar ôl ei gwblhau. Dylai lefel y monitro a'r gwerthuso fod yn gymesur â maint y prosiect, fodd bynnag, mae disgwyl y dylai hyn gynnwys casglu data meintiol ac ansoddol, gan gynnwys defnyddio system gyfrif awtomatig neu system debyg.

52. Gall awdurdodau lleol gynnwys costau monitro am hyd at dair blynedd ar ôl eu cwblhau yn eu ceisiadau am gyllid ond rhaid nodi'r rhain yn glir.

53. Gellir cael arweiniad pellach ar y dull y disgwylir i awdurdodau lleol ei ddefnyddio o ran monitro a gwerthuso gan Arweinwyr Rhanbarthol TrC ac mae templed ar gyfer datblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso ar gael yn Atodiad 5 y canllawiau hyn.

**Ymgynghori ac Ymgysylltu**

54. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol gynnwys rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu eu prosiectau, gan gynnwys ymgysylltu â thrigolion a chymunedau y mae'r cynllun yn effeithio arnynt. Po fwyaf o gyfle sydd gan bobl i ddylanwadu ar a siapio cynlluniau cerdded a beicio ar gyfer eu hardal leol, y mwyaf tebygol y byddant yn eu defnyddio. Rhaid cynnwys ymgysylltu â defnyddwyr a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig wrth ddatblygu prosiectau.

55. Ar gyfer cynlluniau sydd yng nghamau cynnar datblygiad neu le nad oes unrhyw ymgysylltiad wedi'i gynllunio ar hyn o bryd, mae templed o gynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i gynnwys yn Atodiad 6 i gynorthwyo awdurdodau lleol.

56. Dylai awdurdodau lleol gadw cofnod o'r ymgysylltu neu'r ymgynghoriad a wnaed, gan gynnwys crynodeb o'r broses a ddilynwyd, yr adborth a gafwyd a sut mae hyn wedi dylanwadu ar ddatblygiad neu ddyluniad y cynllun. Dylai'r wybodaeth hon fod yn sail i'r dystiolaeth i fodloni gofynion cydweithredu a chyfranogiad y 5 Ffordd o Weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

57. Mae’n **rhaid** i bob prif gais cynllun gynnwys Cynllun Ymgynghori ac Ymgysylltu a thystiolaeth o ymgysylltu penodol ynghylch y cynllun. Bydd methu â darparu'r wybodaeth hon yn golygu na fydd y cais yn cael ei brosesu.

**Hyrwyddo**

58. Mae hyrwyddo yn rhan annatod o ddatblygu a darparu cynlluniau a dylid ei ymgorffori mewn cynlluniau prosiect gan y gellir rhoi hwb sylweddol i effaith y cynlluniau.

59. **Gall ceisiadau gynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cynlluniau am hyd at dair blynedd ar ôl cwblhau'r cynllun**. Rhaid nodi'r rhain yn glir a gallant gynnwys mentrau hyrwyddo megis datblygu a chynhyrchu deunyddiau hyrwyddo (e.e. mapiau o rwydweithiau teithio llesol lleol y bydd y cynllun yn rhan ohonynt), arwyddion gwell i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, cynllunio a chydlynu digwyddiadau (e.e. digwyddiad lansio i ddathlu cwblhau'r cynllun), hyfforddiant beicio a sesiynau trwsio beiciau i annog mwy o bobl i ddefnyddio’r cynllun.

60. Dylai unrhyw ddeunydd hyrwyddo sy'n gysylltiedig â chynlluniau a gyllidir, boed yn rhannol neu'n llawn, drwy'r Gronfa Teithio Llesol gydnabod cyfraniad Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru at gyflawni'r cynllun hwnnw. Rhaid i'r holl ddeunydd ac arwyddion cyhoeddedig fod yn unol â Safonau'r Gymraeg.

**Cyflawni – Achos Rheoli**

61. Mae cwblhau Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) ar gyfer polisïau, gweithdrefnau a gweithgareddau newydd yn ddyletswydd gyfreithiol a osodir ar bob

awdurdod lleol yng Nghymru drwy Ddyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011. O ganlyniad, mae'n **rhaid** i'r holl brosiectau a gyflwynwyd i'w hariannu gan raglen ATF fod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â'r dull a fabwysiadwyd gan eich awdurdod a dylid lliniaru unrhyw effeithiau cydraddoldeb negyddol a ragwelir gyda thystiolaeth o'r EqIA a ddarperir. Bydd methu â darparu'r wybodaeth hon yn golygu na chaiff y cais ei brosesu.

62. Os ystyrir nad yw prif geisiadau'r cynllun yn ddigon datblygedig yn ystod y cam parth, ni chafwyd cymeradwyaeth allweddol, neu os nad oes risgiau wedi'u lliniaru, ni fyddant yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid cyfnod adeiladu, ond gallant dderbyn dyfarniad rhannol i gwblhau'r broses ddatblygu.

**Proffil Gwariant Ariannol**

63. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno proffil gwariant gwaelodlin fel rhan o'u cais a byddant yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant y cynllun yn cadw o fewn yr amserlen wreiddiol. Dylai'r proffil gwariant fod yn realistig ac yn cyd-fynd â'r rhaglen gyflawni ar gyfer y prosiect. Dylid adrodd am unrhyw newid i'r proffil gwariant cyn gynted â phosibl.

64. Bydd cynlluniau sy'n cynnwys arian cyfatebol yn denu sgôr ychwanegol yn y broses arfarnu, gyda chynlluniau sy'n dangos lefelau uwch o arian cyfatebol yn sgorio'n uwch.

65. Rhaid i geisiadau nodi'n glir y lefelau a'r ffynonellau cyfraniadau sydd ar gael drwy arian cyfatebol a chadarnhau y bydd hyn ar waith i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn amserlenni arfaethedig y prosiect. Gall cyllid cyfatebol ddeillio o ffynonellau mewnol neu allanol a gall gynnwys ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig â darparu'r cynlluniau, yn ogystal â chyllid o ffynonellau eraill megis cyllid cyfalaf a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu a sicrheir drwy'r broses gynllunio.

**Cronfa Teithio Llesol - Dyrannu Craidd**

